

Rheolaeth Gynaliadwy ar Barasitiaid mewn Defaid



Pa un o'r defaid yma sy'n diodde' o'r clafr?



Ddim yn siwr? Yn gorfod dyfalu?

Wrth gwrs eich bod chi. Mae'n amhosibl dweud a yw dafad yn diodde' o'r clafr heb ddiagnosis. Er hynny, mae miloedd o ddefaid yn cael eu trin bob blwyddyn am fod pobl yn meddwl eu bod nhw'n gallu dweud. Bydd dyfaliad anghywir yn golygu gwastraffu amser ac arian, peryglu iechyd y ddfad a defnyddio moddion heb eisiau gan gynyddu'r perygl i'r ddfad fagu ymwrthedd iddo'r tro nesaf.

Gofynnwch am ddiagnosis

Os ydych yn credu y gallai'r clafr fod ar eich defaid, peidiwch â dyfalu. Gofynnwch i'ch milfeddyg ddod i gasglu samplau, ac arhoswch am y canlyniad cyn gwneud unrhyw beth. Trowch at y tabl dros y dudalen i'ch helpu i ddewis triniaeth addas gyda'ch milfeddyg neu'ch cynghorydd.



DAFAD DAN AMHEUAETH

DIAGNOSIS

ARALL

e.e. llau, clefyd y crafu, dermatitis mycotig ac ati

DIPIO

DIM CAWOD NEU JET

CADARNHAU'R CLAFR

CHWISTRELLU

(RHOWCH DDOS Y DRYMAF YN Y GRŴP)

OP Organoffosfiad Coopers Ectoforce Paracide Plus Osmonds Golden Fleece	SP* Long acting High-cis cypermethrin Ecofleece Auriplak	SP* Short acting High-cis cypermethrin Robust
Eu dipio unwaith yn amddiffyn eich defaid am hyd at 4 wythnos		Dim amddiffyniad rhag ailheintiad. Ailddipio ar ôl 14 diwrnod
35	12	18 ar ôl zil ddipl
SBECTRWM EANG Yn lladd gwiddon y clafr, llau a pharasitiaid eraill y croen		

CYNNYRCH

PROTOCOL AC AMDDIFFYN

I'W CADW O'R GADWYN FWYD (DYDDIAU)

NODWEDDION

MOSIDECTIN Cydectin Zermex	DORAMECTIN Dectomax	IVERMECTIN Ivomec Dexipex Virbamec Noromectin Panomec
2 chwistrelliad O DAN Y CROEN i drin y clafr. Bwlch o 10 niwrnod rhyngddynt. Rhaid cadw defaid ar wahân am 12 diwrnod ar ôl eu trin. Wedi'u hamddiffyn am hyd at 28 diwrnod	1 chwistrelliad YN Y CYHYRAU. Rhaid cadw'r defaid ar wahân mewn lle glân* am 14 diwrnod ar ôl eu trin	2 chwistrelliad YN Y CYHYRAU. Bwlch o 7 niwrnod rhyngddynt. Rhaid cadw defaid ar wahân mewn lle glân* am 7 niwrnod ar ôl eu trin
* glân = dim defaid ers 21 diwrnod		
70 ar ôl zil chwistrelliad	70	42 ar ôl zil chwistrelliad
Y CLAFR YN UNIG (a rhai llyngyr)		

CAMAU ERAILL I'W CYMRYD

- O ble ddaeth y clafr \Rightarrow Os o ddefaid dwad neu wedi'u prynu, edrychwch ar eich trefniadau cwarantin Defaid cymdogion (gweler isod)
- Cysylltwch â chymdogion sydd â defaid mewn caeau cyffiniol i'w rhybuddio a/neu i awgrymu'ch bod yn trin yr un pryd er mwyn cael y gorau o'r driniaeth ac amddiffyn eich defaid yn well.
- Chwiliwch am fylchau yn eich ffensys neu fannau rhwbio y mae defaid mwy nag un fferm yn eu defnyddio. Ystyriwch godi ffens ddwbl os ydych yn amau iechyd defaid eich cymdogion.

DARLLENWCH GYFARWYDDIADAU'R GWNEUTHURWR BOB TRO

*Defnyddiwch y dip sydd gennych ond mae gwaharddiad ar brynu dip SP ar hyn o bryd.